




DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

Eich cadw chi'n ddiogel rhag tân, tra'r ydych chi'n cadw'n ddiogel gartref.



Mae **LARYMAU MWG** yn achub bywydau, ond dim ond os ydyn nhw'n gweithio. Fe ddylai fod gennych **O LEIAF UN** larwm mwg ar bob llawr yn eich cartref. Fe ddylech chi brofi'ch larymau mwg bob wythnos o leiaf.

**UN SOCED =
UN PLWG**



Peidiwch â gorlwytho socedi. Mae cyfarpar megis peiriannau golchi dillad angen eu plwg eu hunain gan eu bod yn bwerus iawn.



Peidiwch byth â gadael **CANHWYLLAU** wedi eu tanio heb neb i gadw llygaid arnynt ac mae'n rhaid i chi eu diffodd yn llwyr cyn i chi adael yr ystafell neu fynd i'r gwely

Cadwch ganhwylau ymhell o eitemau fflamadwy megis llenni, dodrefn, dillad gwely, dillad neu lyfrau. Ystyriwch ddefnyddio canhwylau batri LED yn lle canhwylau go iawn.

LLWYBRAU DIANC

Lluniwch gynllun dianc a gwnewch yn siŵr bod pawb yn y cartref yn gwybod sut i ddianc.

Cadwch allanfeydd yn glir o lanast a rhwystrau. Cadwch allweddî drysau a ffenestri mewn man cyfleus a chyfarwydd.

Meddyliwch am ail lwybr dianc rhag ofn y bydd y cyntaf wedi ei rwystro.

Os ydych chi'n gwisgo teclyn argyfwng, gwnewch yn siŵr eich bod yn ei wisgo a'i fod gerllaw amser gwely.



DIFFODDWCH HI - YN LLWYR



PEIDIWCH byth ag ysmegu yn y gwely. Cymrwch bwyll arbennig os ydych chi'n ysmegu yn y gwely a chithau wedi blino, wedi cymryd meddyginiaeth sydd yn eich gwneud chi'n gysglyd neu os ydych wedi bod yn yfed. Defnyddiwch flwch llwch pwrpasol na all droi drosodd yn hawdd iawn. Byddwch yn ofalus os ydych chi'n ysmegu ac yn defnyddio elïau lliniaru - fe all yr eli amsugno i mewn i ddillad, dillad gwely a gorchuddion gan adael ôl fflamadwy.

**COFIWCH, MEWN ACHOS O DÂN, EWCH
ALLAN, ARHOSWCH ALLAN A FFONIWCH 999.**

Os nad oes gennych chi larymau mwg gweithredol, cysylltwch â'ch gwasanaeth tân ac achub lleol (nid 999) am gyngor ar:

0800 169 1234

Am ragor o wybodaeth ar ddiogelwch tân ac i dderbyn diweddariad am wasanaethau allweddol a phynciau sydd o ddi-ddordeb i chi ewch i www.gwastan-gogcymru.org.uk

YN Y GEGIN...

PEIDIWCH â gadael sosbenni heb neb i gadw llygaid arnynt wrth goginio bwyd a pheidiwch **BYTH** â gadael plant yn y gegin ar eu pen eu hunain.

Cadwch ardaloedd coginio yn glir o bethau a all fynd ar dân megis llieiniau sychu llestri, menig popty a phacedi bwyd.


Glanhewch eich popty a'ch gril yn rheolaidd. Fe all saim gasglu a mynd ar dân

Rhowch eich sosban sglodion yn y bin.

EITEMAU TRYDANOL

Gwiriwch fod eich cyfarpar trydan mewn cyflwr gweithredol da. Os gwelwch fod gwifrau cyfarpar wedi eu difrodi neu dreulio, peidiwch â'u defnyddio. PEIDIWCH â gadael peiriannau golchi dillad, peiriannau sychu dillad na pheiriannau golchi llestri ymlaen dros nos.

Dylech gadw **GWRESOGYDDION** yn ddigon pell oddi wrth ddillad, llenni, dodrefn a defnyddiau fflamadwy eraill. Peidiwch **BYTH** â defnyddio gwresogyddion i sychu dillad. Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi eu diffodd a thynnu'r plwg cyn mynd i'r gwely.



NFCC
National Fire
Chiefs Council



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



NFCC
National Fire
Chiefs Council



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service